**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
PwyllgorIGC@cymru.gov.uk

3ydd Hydref 2014

Annwyl David

Yn eich llythyr dyddiedig 30ain Medi, gofynnoch am eglurhad o gyfrifoldebau perthnasol y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd.

Mae'r rhestr o gyfrifoldebau Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 12fed Medi yn gosod hyn yn eithaf clir. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae'r Gweinidog yn gyfrifol am holl agweddau ar y portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys y meysydd y mae'r Dirprwy Weinidog yn ymdrin â nhw. Fodd bynnag, gallaf ddeall pam y byddai'n well gan aelodau weld hyn yn cael ei esbonio yn fwy penodol. Rwyf wedi cytuno felly gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd gan y Dirprwy Weinidog gyfrifoldeb dros gymryd gorolwg dydd i ddydd ar ddarpariaeth a pherfformiad y Gwasanaeth Iechyd, gan gynnwys:

- Perfformiad yn erbyn targedau haen un, sy'n cynnwys amseroedd atgyfeiriad am driniaeth, canser, cardiaidd, oedi wrth drosglwyddo gofal, amseroedd ymateb ambiwlansys ar gyfer damweiniau ac achosion brys, iechyd y cyhoedd a dangosyddion iechyd meddwl;
- Cyflawni'r dulliau mesur canlyniadau newydd;
- Cynlluniau cyflawni ac eithrio cwblhau'r cynllun cyflawni gofal sylfaenol;
- Craffu ar berfformiad sefydliadau'r GIG yn erbyn eu cynlluniau tair blynedd;
- Cyfarfodydd perfformiad gyda chadeiryddion ac is-Gadeiryddion byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd y GIG;
- Cyfarfodydd rheolaidd gydag uwch swyddogion i drafod agweddau ar berfformiad, er enghraifft, cwrdd a'r rheiny sy'n gyfrifol am gyflawni amseroedd atgyfeiriad am driniaeth yn y byrddau iechyd i drafod gwelliannau.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn rhoi'r eglurhad roeddech chi'n ei geisio.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 060 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 060 4400
Ffacs * Fax 029 2082 1879
yp.prifweinidog@cymru.gsi.gov.uk
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk